# Diwygio Systemau Nodyn Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio (PRN) a Nodyn Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio drwy Allforio (PERN) a Chymeradwyo Gweithredwyr

## Crynodeb o'r atebion i'r ymgynghoriad ac ateb y Llywodraeth

Dyddiad: 28 Hydref 2022

Adran Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella ac amddiffyn yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 asiantaeth a'n cyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn gwell cyflwr na'r un y cawsom ef ynddo.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn

packaging@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

# Cynnwys


Cyflwyniad ....4

Cefndir ....4

Atebwyr ....5

Dadansoddiad o’r atebion ....5

Crynodeb o’r atebion ....6

Adrodd am ddata (Cwestiynau 56) ....6

Ateb y Llywodraeth ....9

Adrodd am refeniw (Cwestiynau 7 i 8) ....9

Ateb y Llywodraeth ....10

Amserlenni (Cwestiynau 9 i 13) ....11

Ateb y Llywodraeth ....16

Y Rhyngwyneb gyda Chynlluniau Dychwelyd Blaendal (DRS) (Cwestiynau 14-18) ....16

Ateb y Llywodraeth ....20

Prawf 'Cymhwysedd Gweithredwr' ar gyfer cynlluniau cydymffurfio, ailbroseswyr ac allforwyr (Cwestiynau 19 i 20) ....21

Ateb y Llywodraeth ....23

Ffi Gydymffurfio (Cwestiynau 21 i 22) ....23

Ateb y Llywodraeth ....26

Awgrymiadau Eraill ....26

Ateb y Llywodraeth ....26

# Cyflwyniad

## Cefndir

Bu’r ymgynghoriad ynghylch diwygiadau i system Nodyn Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio (PRN) a Nodyn Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio drwy Allforio (PERN), a chymeradwyaeth gweithredwr, yn rhedeg o 26 Mawrth hyd 21 Mai 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn ochr yn ochr ag ymateb y llywodraeth i ymgynghoriad 2021 ar gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) am ddeunydd pacio, oedd yn amlinellu ein cynlluniau i barhau â'r system PRN/PERN tan 2026 i 2027 o leiaf.

Dan y dull hwn, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr gwrdd â’u rhwymedigaethau ailgylchu deunydd pacio ar gyfer yr holl ddeunydd pacio (cartref a dibreswyl) drwy gaffael PRN/PERN i dalu’r costau sy'n gysylltiedig ag ailgylchu'r gwastraff hwn. Bydd cynhyrchwyr gwastraff deunydd pacio cartref hefyd yn gwneud taliad ar wahân i awdurdodau lleol,[1] drwy Weinyddwr y Cynllun EPR, i dalu’r costau am reoli casglu a didoli'r deunydd pacio hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod cynhyrchwyr yn cyfrannu'n ariannol tuag at reoli'r gwastraff deunydd pacio cartref a dibreswyl y maent yn ei roi ar y farchnad.

Nod yr ymgynghoriad hwn oedd gofyn am sylwadau ar nifer o newidiadau technegol a gweinyddol i'r ffordd y mae'r system PRN/PERN yn gweithredu. Bwriad y newidiadau hyn yw mynd i'r afael â rhai o'r problemau a ganfuwyd yn y system bresennol, gan gynnwys y ffaith fod prisiau PRN/PERN mor anwadal, diffyg tryloywder, a'r posibilrwydd o gyhoeddi PRN/PERN yn dwyllodrus.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys diwygio’r meysydd arfaethedig canlynol:

- Gofynion adrodd am werthu PRN/PERN.
- Gofynion adrodd am y modd y defnyddir y refeniw o werthiannau PRN/PERN.
- Amserlenni ar gyfer masnachu PRN/PERN.
- Cyflwyno prawf ‘cymhwysedd technegol’ ar gyfer gweithredwyr cynlluniau cydymffurfio ac ailbroseswyr ac allforwyr achrededig.
- Y rhyngwyneb â chyflwyno Cynlluniau Dychwelyd Blaendaliadau (DRS) ar gyfer cynwysyddion diodydd.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ychwanegol ar newidiadau arfaethedig eraill i’r system PRN/PERN, gan gynnwys:

- Cyflwyno ffi gydymffurfio ar gyfer cynhyrchwyr sydd ddim yn cwrdd â’u rhwymedigaethau.

[1] Mae cyfeiriadau at awdurdodau lleol yn cynnwys cynghorau lleol yng Ngogledd Iwerddon.

Y bwriad yw cyflwyno unrhyw gynigion fydd yn cael eu datblygu o’r ymgynghoriad hwn fel rhan o’n deddfwriaeth fydd yn cyflwyno diwygiadau ehangach i gyfrifoldeb cynhyrchwyr, gyda Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 a Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Gogledd Iwerddon) 2007 yn aros yn eu lle hyd nes y cânt eu dirymu gan Reoliadau newydd Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr deunydd pacio.

## Atebwyr

Derbyniwyd cyfanswm o 129 o atebion ar wahân i’r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys 105 o atebion a gyflwynwyd drwy holiadur ar-lein Citizen Space a 24 o atebion a gyflwynwyd drwy e-bost.

Rhoddir dadansoddiad o'r atebwyr yn y tabl isod. Rhoddir rhestr o'r sefydliadau a atebodd yn Atodiad A. Nid yw hyn yn cynnwys unigolion a atebodd ac atebwyr a ofynnodd am fod yn ddienw.

**Tabl 1. Atebion yn ôl math o atebwr**

| Math o Atebwr | Nifer yr atebion | Canran o gyfanswm yr atebion |
|---|---|---|
| Sefydliad yn cynrychioli busnesau neu gorff masnach | 30 | 23% |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 2 | 2% |
| Ymgynghoriaeth | 4 | 3% |
| Dosbarthwr | 1 | 1% |
| Unigolyn | 4 | 3% |
| Llywodraeth Leol | 11 | 9% |
| Arall | 25 | 19% |
| Dylunydd / gweithgynhyrchwr / trawsnewidydd deunydd pacio | 4 | 3% |
| Gweithgynhyrchwr cynnyrch / llenwr pecynnau | 22 | 17% |
| Ailbroseswr / allforiwr | 14 | 11% |
| Manwerthwr (yn cynnwys marchnadoedd ar-lein) | 8 | 6% |
| Cwmni rheoli gwastraff | 4 | 3% |

## Dadansoddiad o’r atebion

Dadansoddwyd mwyafrif yr atebion gan ddefnyddio themâu allweddol. Defnyddiwyd y rhain i gategoreiddio'r holl atebion testun, yn atebion strwythuredig a lle nad oedd atebion mewn e-bost wedi'u strwythuro ond yn cynnwys testun yr oedd y dadansoddwyr yn teimlo

ei fod yn berthnasol i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Rhoddwyd sylw arbennig i atebion rhanddeiliaid allweddol. Atgynhyrchir dyfyniadau dethol gan sefydliadau yn yr adroddiad lle mae'r atebion yn adlewyrchu themâu ehangach neu deimladau atebwyr eraill.

Mae’r adroddiad yn defnyddio’r derminoleg ganlynol i ddisgrifio amlder atebion i gwestiynau unigol:

- Y rhan fwyaf: >80% o’r atebwyr
- Mwyafrif: 50-80% o’r atebwyr
- Cymysg neu amrediad: pan nad oes mwyafrif
- Lleiafrif mawr: 20-50% o’r atebwyr
- Bychan, rhai, nifer: <20% o’r atebwyr

Mae'r adran ganlynol yn cynnwys crynodeb llawn o'r atebion gan ddilyn trefn y ddogfen ymgynghori.


# Crynodeb o’r atebion

## Adrodd am ddata (Cwestiynau 56)

### Cwestiwn 5: Adroddiadau misol gorfodol ar ddata ailbrosesu / allforio

**C5. Ydych chi'n cytuno neu’n anghytuno y dylid cyflwyno adroddiadau misol gorfodol ar gyfer data ailbrosesu/allforio?**

Rhoddodd cyfanswm o 122 o’r atebwyr ateb i Gwestiwn 5. Roedd 85% yn “Cytuno”, atebodd 8% “Anghytuno” ac atebodd 7% “Dim yn cytuno nac yn anghytuno”.




**Ffigur 1. Atebion i Gwestiwn 5**

Roedd y **rhan fwyaf** o’r atebwyr yn cytuno â’r cynnig i gyflwyno adroddiadau misol gorfodol ar gyfer data ailbrosesu/allforio. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif o bob math o atebwr.


Rhoddodd 115 o’r atebwyr resymau pellach dros eu hateb. O’r rhai oedd yn cytuno â’r cynnig hwn, dywedodd mwyafrif y dylai hyn wneud y farchnad yn fwy tryloyw a rhoi gwybodaeth fwy cywir am y PRN/PERN oedd ar gael, fyddai’n peri bod prisiau yn llai anwadal. Tynnodd lleiafrif mawr sylw at bwysigrwydd gorfodi ynghyd â chosbau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r drefn adrodd fisol. Gwnaeth rhai sylwadau ar y baich gweinyddol ychwanegol y byddai hyn yn ei osod ar ailbroseswyr ac allforwyr ac anawsterau adrodd ar y data mewn pryd, yn enwedig ar gyfer allforion, fyddai’n effeithio ar gywirdeb y data. Awgrymodd rhai y dylid cyflwyno ‘cyfnod oedi’ o 21 diwrnod i roi amser i gynhyrchwyr goladu’r data gofynnol ac adrodd amdano.

O’r rhai oedd yn anghytuno â’r cynnig, dywedodd y mwyafrif y byddai hyn yn gosod baich gweinyddol sylweddol ar ailbroseswyr ac allforwyr, yn enwedig i gwmnïau llai. Tynnodd lleiafrif mawr o’r atebwyr hyn sylw hefyd at anawsterau derbyn y data hwn ac adrodd amdano mewn pryd, yn enwedig ar gyfer allforion. Awgrymodd lleiafrif mawr hefyd y byddai’r cynnig hwn yn rhoi mantais annheg i gynhyrchwyr dros ailbroseswyr ac allforwyr.

### Cwestiwn 6: Adroddiadau misol gorfodol am brisiau PRN/PERN a data refeniw

**C6. Ydych chi'n cytuno neu’n anghytuno y dylid cyflwyno adroddiadau misol gorfodol am brisiau PRN/PERN a data refeniw?**

Rhoddodd cyfanswm o 122 o’r atebwyr ateb i Gwestiwn 6. Roedd 61% yn “Cytuno”, 16% yn “Anghytuno” a 22% yn dweud “Dim yn cytuno nac yn anghytuno”.




**Ffigur 2. Atebion i Gwestiwn 6**

Roedd **mwyafrif** yr atebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno adroddiadau misol gorfodol am brisiau PRN/PERN a data refeniw. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, llywodraeth leol a gweithgynhyrchwyr cynnyrch. Roedd mwyafrif yr atebwyr o'r cwmnïau rheoli gwastraff yn anghytuno â'r cynnig hwn.

Rhoddodd 117 o'r atebwyr resymau pellach dros eu hateb. Ymhlith yr atebwyr oedd yn cytuno â'r cynnig hwn, dywedodd mwyafrif y byddai hyn yn gwella tryloywder ac yn rhoi data mwy cywir am brisiau PRN/PERN i gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio. Dywedodd lleiafrif mawr y byddai hyn yn lleihau newidiadau mewn prisiau ac yn arwain at gynhyrchwyr yn talu prisiau tecach am PRN/PERN.

O'r atebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig, dywedodd mwyafrif y byddai hyn yn gosod baich gweinyddol neu gost ychwanegol sylweddol ar fusnesau i gydymffurfio â'r gofynion adrodd hyn. Atebodd lleiafrif mawr fod y wybodaeth hon eisoes ar gael drwy lwyfannau masnachu ar-lein ac felly nad oedd angen yr adrodd ychwanegol hwn, er bod rhai yn nodi mai dim ond nifer fechan o drafodion a gâi eu cofnodi fel hyn. Roedd lleiafrif mawr hefyd yn anghytuno â'r cynnig hwn ar y sail ei fod yn ymyrryd â gweithrediad marchnad PRN / PERN, er na roddwyd unrhyw esboniad pellach.

Ymhlith yr atebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, cytunai mwyafrif y byddai'r adrodd hwn yn gwneud y farchnad yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, mynegodd lleiafrif mawr o'r atebwyr yma bryderon hefyd ynghylch y beichiau ychwanegol y byddai hyn yn eu gosod ar fusnesau. Ar draws yr holl atebion, tynnodd lleiafrif mawr sylw at yr angen i sicrhau cyfrinachedd data i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif. Awgrymodd rhai hefyd fod adroddiadau misol yn rhy aml, yn enwedig ar gyfer data refeniw, ac y dylid adrodd am y wybodaeth hon yn chwarterol yn hytrach neu'n flynyddol mewn ôl-daliadau.

### Ateb y Llywodraeth

Yn seiliedig ar yr atebion i'r ymgynghoriad, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ehangach, rydym yn bwriadu symud ymlaen â'r cynnig i gyflwyno adroddiadau misol gorfodol ar gyfer data tunelledd ailbrosesu ac allforio a data prisiau PRN/PERN. Adroddir am y data hwn wrth y rheoleiddwyr, fydd yn coladu, yn prosesu ac yn gwneud y data'n ddienw cyn cyhoeddi'r tunelli cyfanredol a'r cyfartaleddau prisiau. Bydd hyn yn sicrhau bod data masnachol sensitif yn cael ei warchod.

Rydym yn cydnabod bod yr adrodd ychwanegol hwn yn faich gweinyddol newydd i ailbroseswyr ac allforwyr, yn enwedig i gwmnïau llai. Fodd bynnag, gan y bydd achrediad yn parhau i fod yn wirfoddol, dim ond i ailbroseswyr ac allforwyr sy'n dymuno rhoi PRN/PERN y bydd yn ofynnol ymgymryd â'r adrodd hwn.


Cyflwynir y diwygiadau hyn fel rhan o'n Rheoliadau deunydd pacio EPR ehangach.

## Adrodd am refeniw (Cwestiynau 7 i 8)

### Cwestiynau 7 ac 8: Categorïau newydd ar gyfer adrodd am refeniw

**C7. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig o adrodd am refeniw ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr?**

Rhoddodd cyfanswm o 122 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 7. Atebodd 73% "Cytuno", atebodd 11% "Anghytuno" ac atebodd 16% "Dim yn cytuno nac yn anghytuno".




**Ffigur 3. Atebion i Gwestiwn 7**

Roedd **mwyafrif** yr atebwyr yn cytuno â'r dull o adrodd am refeniw ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, llywodraeth leol,

gweithgynhyrchwyr cynnyrch ac ailbroseswyr/allforwyr. Roedd yr atebion gan gwmnïau rheoli gwastraff yn fwy cymysg.

Rhoddodd 112 o'r atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Dywedodd mwyafrif y rhai oedd yn cytuno â'r cynnig hwn y byddai'n gwneud y ffordd y caiff refeniw PRN/PERN ei wario gan ailbroseswyr ac allforwyr yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, mynegodd lleiafrif mawr o'r atebwyr hyn bryderon ynghylch y baich gweinyddol ychwanegol y byddai amlder yr adrodd hwn yn ei osod ar ailbroseswyr ac allforwyr. Dywedodd lleiafrif mawr hefyd y byddai angen gwell gorfodaeth ac archwilio er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynwyd yn gywir.

Ymhlith yr atebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, awgrymodd lleiafrif mawr y byddai'n anodd sicrhau bod y wybodaeth, a roddid wrth adrodd, yn gywir heb gyflwyno gorfodaeth neu archwilio ychwanegol. Mynegodd lleiafrif mawr bryderon hefyd ynghylch y baich gweinyddol ar ailbroseswyr ac allforwyr i gwrdd â'r gofynion adrodd ychwanegol hyn. Roedd rhai atebwyr yn cwestiynu a oedd angen diwygio'r categorïau adrodd presennol.

Ar draws yr holl atebion, cynigiodd llawer o sylwadau awgrymiadau eraill ar gyfer newidiadau neu welliannau i'r cynnig hwn. Roedd rhai o'r awgrymiadau mwyaf cyffredin yn cynnwys: newid i adroddiadau fesul chwarter, chwe-mis neu flwyddyn (yn hytrach na phob mis); dileu neu fireinio'r categori 'Cyfathrebu' arfaethedig, gan y dylai Gweinyddwr y Cynllun EPR fod yn gyfrifol am drefnu ymgyrchoedd cyfathrebu; a chadw'r categori presennol 'cedwir ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol'.

**C8. Awgrymwch unrhyw gategorïau/is-gategorïau eraill y credwch y dylid eu cynnwys.**

Rhoddodd cyfanswm o 83 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 8. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin oedd:

- Adfer y categori 'a gedwir ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol'.
- Cynnwys categori ar gyfer 'costau cydymffurfio' â'r Rheoliadau, gan gynnwys costau ar gyfer achredu, adrodd a gweinyddu.
- Is-gategorïau ychwanegol o dan y categori 'Seilwaith', gan gynnwys 'capasiti prosesu', 'ailgylchu mecanyddol/cemegol' a 'deunyddiau/fformatau'.
- Newidiadau i'r categori 'Cyfathrebu' i adlewyrchu rôl a chylch gorchwyl Gweinyddwr y Cynllun EPR.

## Ateb y Llywodraeth

Ar sail yr atebion i'r ymgynghoriad, ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, rydym yn bwriadu diwygio'r categorïau ar gyfer adrodd am refeniw yn unol â'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y diwygiadau hyn yn cael eu cyflwyno fel rhan o'n Rheoliadau deunydd pacio EPR ehangach. Nid ydym yn symud ymlaen â'r categorïau ychwanegol a awgrymwyd ar hyn o bryd gan nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau a fyddai'n helpu i feithrin gallu o fewn y system neu ddatblygu


marchnadoedd newydd (er enghraifft, y categori ‘costau cydymffurfio’). Gellir ychwanegu is-gategorïau ychwanegol yn ddiweddarach.

## Amserlenni (Cwestiynau 9 i 13)

### Cwestiwn 9: Amserlen fyrrach ar gyfer masnachu PRN/PERN

**C9. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i leihau'r amserlen ar gyfer masnachu PRN/PERN?**

Rhoddodd cyfanswm o 123 o’r atebwyr ateb i Gwestiwn 9. Atebodd 52% “Cytuno”, atebodd 30% “Anghytuno” ac atebodd 18% “Dim yn cytuno nac yn anghytuno”.




**Ffigur 4. Atebion i Gwestiwn 9**

Roedd **mwyafrif** bychan o’r atebwyr yn cytuno â’r cynnig i leihau’r amserlen ar gyfer masnachu PRN/PERN. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, llywodraeth leol, gweithgynhyrchwyr cynnyrch a manwerthwyr. Roedd mwyafrif yr atebwyr o gwmnïau rheoli gwastraff ac atebwyr ‘eraill’ (oedd yn cynnwys nifer o gynlluniau cydymffurfio cynhyrchwyr) yn anghytuno â’r cynnig hwn, tra roedd atebion gan ailbroseswyr/allforwyr yn fwy cymysg.


Rhoddodd 108 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Awgrymai lleiafrif mawr o’r atebwyr oedd yn cytuno â’r cynnig hwn y byddai hyn yn atal ailbroseswyr ac allforwyr rhag cam-drin y farchnad drwy atal PRN/PERN nes bod prisiau’n uwch, fyddai’n cadw prisiau rhag bod mor anwadal yn gyffredinol. Mynegodd lleiafrif mawr o’r atebwyr hyn eu bod o blaid terfyn amser chwarterol, yn hytrach na misol, ar gyfer masnachu PRN/PERN. Roedd hyn oherwydd ffactorau megis amseroedd prosesu deunyddiau a'r amser a gymerai allforwyr i gael tystiolaeth bod ailgylchu wedi digwydd, gyda rhai atebwyr yn awgrymu y gallai terfyn amser misol gael canlyniadau nas bwriadwyd ar weithrediad y farchnad.

Ymhlith yr atebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, dywedai'r mwyafrif fod yr ymyriad hwn yn ddiangen neu na fyddai'n cael yr effaith a ddymunid o leihau anwadalwch prisiau, ac y gallai yn lle hynny arwain at ganlyniadau newydd nas bwriadwyd, megis cynyddu anwadalwch prisiau. Anghytunai lleiafrif mawr o'r atebwyr yma â'r cynnig hwn ar y sail ei fod yn ymyrryd â gweithrediad system y farchnad rydd ac y byddai'n amharu ar y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw. Dywedodd lleiafrif mawr hefyd y byddai yn rhoi mantais annheg i gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio dros ailbroseswyr ac allforwyr. Tynnodd lleiafrif mawr sylw at yr anawsterau o ran cwrdd â'r amserlen fyrrach hon ar gyfer masnachu oherwydd problemau gyda chapasiti gweithredu ac amseroedd prosesu deunyddiau.

## Cwestiynau 10 ac 11: Ymestyn hyblygrwydd y cyfnod cydymffurfio presennol

**C10. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cael mecanwaith ar gyfer ymestyn y cyfnod cydymffurfio ar gyfer masnachu PRN/PERN?**

Rhoddodd cyfanswm o 123 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 10. Atebodd 54% "Cytuno", atebodd 29% "Anghytuno" ac atebodd 17% "Dim yn cytuno nac yn anghytuno".




**Ffigur 5. Atebion i Gwestiwn 10**

Roedd **mwyafrif** bychan o'r atebwyr yn cytuno y dylid cael mecanwaith i ymestyn y cyfnod cydymffurfio ar gyfer masnachu PRN/PERN. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, gweithgynhyrchwyr cynnyrch, manwerthwyr a dylunwyr deunydd pacio. Anghytunai mwyafrif yr ailbroseswyr/allforwyr â'r mecanwaith ymestyn hwn, ac roedd atebion gan lywodraeth leol a chwmnïau rheoli gwastraff yn fwy cymysg.

Rhoddodd 105 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. O'r atebwyr oedd yn cytuno ag estyniad i'r cyfnod cydymffurfio, dywedodd lleiafrif mawr y byddai hyn yn gwneud prisiau yn llai anwadal ac yn lliniaru'r codiadau mewn prisiau a welwyd yn ystod misoedd olaf rhai

blynyddoedd cydymffurfio. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr atebwyr p'un a ddylai'r estyniad hwn gael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig (fel yn ystod pandemig Covid-19) ynteu a ddylai hwn fod yn estyniad parhaol o fis i'r cyfnod cydymffurfio, gan alluogi PRN/PERN a brynwyd ym mis Ionawr i gael eu 'cario'n ôl' i gwrdd â rhwymedigaethau cynhyrchwyr yn y flwyddyn galendr flaenorol.

Dywedodd lleiafrif mawr o atebwyr a anghytunai â'r cynnig na fyddai'r estyniad hwn yn gwneud dim ond gohirio, a gwaethygu o bosibl, y mater yn y flwyddyn gydymffurfio ganlynol, gan greu problem dreigl. Awgrymodd lleiafrif mawr hefyd fod ymestyn y cyfnod cydymffurfio yn ddianghenraid ochr yn ochr â'r cynigion eraill, megis adrodd yn fwy rheolaidd. Roedd rhai yn anghytuno ar y sail y byddai hyn yn amharu ar weithrediad y farchnad rydd.


**C11. Rhowch fanylion yr amodau neu'r meini prawf a fyddai'n briodol yn eich barn chi i gyflwyno estyniad i'r cyfnod cydymffurfio.**

Rhoddodd cyfanswm o 96 o'r atebwyr atebion i Gwestiwn 11. Fel yng Nghwestiwn 10, awgrymai lleiafrif mawr o'r atebwyr y dylai hwn fod yn estyniad parhaol i'r cyfnod cydymffurfio, gan ganiatáu i PRN/PERN a brynwyd ym mis Ionawr gael eu 'cario'n ôl' i gwrdd â rhwymedigaethau'r cynhyrchwyr yn y flwyddyn galendr flaenorol. I'r gwrthwyneb, dywedai rhai mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r estyniad, megis pandemig, digwyddiad daearwleidyddol neu "weithred gan Dduw", fel force majeure pe na bai cynhyrchwyr yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau. Atebodd rhai y byddai angen diffinio'r meini prawf yn glir a'u hegluro yn y Rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyson.

### Cwestiwn 12: Cynyddu'r amserlen ar gyfer masnachu PRN/PERN

**C12. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gynyddu'r amserlen ar gyfer masnachu PRN/PERN i system dreigl neu aml-flwyddyn?**

Rhoddodd cyfanswm o 122 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 12. Atebodd 9% "Cytuno", atebodd 74% "Anghytuno" ac atebodd 17% "Dim yn cytuno nac yn anghytuno".




**Ffigur 6. Atebion i Gwestiwn 12**

Roedd **mwyafrif** yr atebwyr yn anghytuno â'r cynnig i gynyddu'r amserlen ar gyfer masnachu PRN/PERN i system aml-flwyddyn neu dreigl. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, ailbroseswyr/allforwyr, gweithgynhyrchwyr cynnyrch a chwmnïau rheoli gwastraff. Roedd yr atebion gan lywodraeth leol a manwerthwyr (gan gynnwys marchnadoedd ar-lein) yn fwy cymysg.


Rhoddodd 106 o atebwyr sylwadau pellach yn egluro eu hateb. O'r rhai a gytunai â chyfnod cydymffurfio aml-flwyddyn neu dreigl, roedd lleiafrif mawr yn gwneud hynny oherwydd y byddai'n helpu i atal ailbroseswyr ac allforwyr rhag cam-drin y farchnad gan atal PRN/PERN nes bod y prisiau ar eu huchaf. Awgrymai rhai y byddai'r dewis hwn yn galluogi ailbroseswyr ac allforwyr i ymateb yn well i ofynion y farchnad ac yn gwneud prisiau'n llai anwadal.

Ymhlith yr atebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, dywedai'r mwyafrif y byddai'r opsiwn hwn yn rhy gymhleth i'w weinyddu a'i reoleiddio'n effeithiol. Dywedai lleiafrifoedd mawr o atebwyr oedd yn anghytuno hefyd fod yr ymyriad hwn yn ddianghenraid neu y gallai arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd, megis newidiadau cynyddol mewn prisiau. Dywedodd lleiafrif mawr o atebwyr, nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, hefyd y byddai'n gymhleth i'w weinyddu.

## Cwestiwn 13: Y dull gorau o ymdrin ag amserlenni masnachu PRN/PERN

**C13. Yn eich barn chi, pa ddull sydd fwyaf addas ar gyfer mynd i'r afael â materion anwadalwch prisiau yn y farchnad PRN/PERN?**

Rhoddodd cyfanswm o 123 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 13. Atebodd 14% "Opsiwn 1", atebodd 43% "Opsiwn 2" ac atebodd 3% "Opsiwn 3" Dywedodd 11% y gallai'r holl opsiynau weithio, dywedodd 20% dim un o'r uchod ac roedd 10% heb wybod digon i fynegi barn.




**Ffigur 7. Atebion i Gwestiwn 13**

Ni chafwyd ateb mwyafrifol i'r cwestiwn hwn, ond dywedodd **lleiafrif mawr** o'r atebwyr mai Opsiwn 2 (mecanwaith ar gyfer ymestyn y cyfnod cydymffurfio ar gyfer masnachu PRN/PERN) fyddai'r un mwyaf addas ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau anwadalwch prisiau yn y farchnad PRN/PERN. Atebodd mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, dylunwyr deunydd pacio ac atebwyr 'eraill' (oedd yn cynnwys nifer o gynlluniau cydymffurfio cynhyrchwyr) Opsiwn 2, tra dywedai mwyafrif y manwerthwyr y gallai pob opsiwn weithio. Roedd yr atebion gan grwpiau eraill yn fwy cymysg.

Rhoddodd 101 o atebwyr sylwadau ychwanegol ar eu hateb. O ran yr atebwyr oedd o blaid Opsiwn 1 (lleihau'r amserlen ar gyfer masnachu PRN/PRN), y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd y byddai hyn yn gwella tryloywder a rhannu data, yn atal y farchnad rhag cael ei cham-drin, ac mai dyma fyddai'r opsiwn gorau ar gyfer lleihau anwadalwch prisiau, neu nad oeddent yn hoffi'r opsiynau eraill. Awgrymodd rhai y gellid cyfuno hyn ag Opsiwn 2, gyda mecanwaith i ymestyn hyblygrwydd y cyfnod cydymffurfio o dan rai amgylchiadau.

O'r atebwyr oedd o blaid Opsiwn 2, rhoddodd lleiafrif mawr sylwadau yn ailddatgan mai hwn fyddai'r dewis mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau anwadalwch prisiau. Dywedodd lleiafrif mawr nad oeddent yn hoffi'r dewisiadau eraill, a chadarnhaodd rhai eu bod o blaid estyniad parhaol i'r cyfnod cydymffurfio fyddai'n caniatáu i gynhyrchwyr 'gario'n ôl' PRN/PERN a brynwyd ym mis Ionawr i'r flwyddyn gydymffurfio flaenorol.

Ymhlith yr atebwyr a atebodd 'Dim un o'r uchod', dywedai mwyafrif nad oedd angen yr ymyriadau hyn neu nad oeddent yn mynd i'r afael ag achosion anwadalwch prisiau. Dywedodd lleiafrif mawr fod y dewisiadau i gyd yn ymyrryd â gweithrediad y farchnad PRN/PERN ac y byddent yn tanseilio'r system bresennol, ac atebodd rhai y byddai'r dewisiadau'n arwain at fwy o anwadalwch.

### Ateb y Llywodraeth


Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion i newid yr amserlen ar gyfer masnachu PRN/PERN ar hyn o bryd, gan ein bod yn credu bod angen datblygu'r cynigion hyn ymhellach ac ymgysylltu â'r sector. Rydym yn bwriadu mesur effeithiau'r diwygiadau eraill a gaiff eu datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a byddwn yn adolygu'r cynigion hyn yn ddiweddarach.

## Y Rhyngwyneb gyda Chynlluniau Dychwelyd Blaendal (DRS) (Cwestiynau 14-18)

### Cwestiynau 14, 15 a 16: Dulliau o ymdrin â'r deunydd DRS sy'n parhau i fod yn y casgliadau ar ymyl y ffordd

**C14. Ydych chi'n credu y byddai cyhoeddi PRN/PERN ar gyfer y deunydd DRS sy'n parhau yn y casgliadau ar ymyl y ffordd yn effeithio ar y farchnad PRN/PERN? Os ydych, beth fyddai'r effaith honno, ac os nad ydych, pam?**

Rhoddodd cyfanswm o 119 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 14. Atebodd 59% "Ydw", atebodd 2% "Nac ydw" ac atebodd 39% "Ansicr".




**Ffigur 8. Atebion i Gwestiwn 14**


Dywedodd **mwyafrif** yr atebwyr y byddai cyhoeddi PRN/PERN ar ddeunyddiau DRS sy'n parhau mewn casgliadau ymyl y ffordd yn cael effaith ar y farchnad PRN/PERN. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, gweithgynhyrchwyr cynnyrch, cwmnïau rheoli gwastraff a dylunwyr deunydd pacio. Roedd mwyafrif yr atebwyr o lywodraeth leol yn ansicr, tra roedd atebion gan ailbroseswyr/allforwyr a manwerthwyr yn gymysg.

Rhoddodd 105 o atebwyr sylwadau pellach yn egluro eu hateb. Roedd lleiafrif mawr o’r atebwyr, oedd yn dweud y câi hyn effaith ar y farchnad PRN/PERN, yn cytuno â’r dadansoddiad yn yr ymgynghoriad, y byddai gormod o dystiolaeth yn lleihau prisiau PRN/PERN ar gyfer rhai deunyddiau. Dywedodd lleiafrif mawr hefyd y byddai'r effaith hon yn dibynnu ar faint o ddeunydd y byddai’r systemau DRS yn ei gasglu, sy'n anodd ei bennu ar hyn o bryd.

Dywedodd lleiafrif mawr o’r atebwyr a atebodd ‘Ansicr’ hefyd ei bod yn anodd asesu’r effaith y byddai’r deunydd hwn oedd yn aros ar ymyl y ffordd yn ei gael heb gael rhagor o wybodaeth am sut y byddai’r systemau DRS yn gweithredu a faint y byddent yn ei gasglu.

**C15. Ydych chi’n cytuno ein bod yn dilyn trywydd modelu a samplu?**

Rhoddodd cyfanswm o 121 o’r atebwyr ateb i Gwestiwn 15. Atebodd 73% “Ydw”, atebodd 34% “Nac ydw” ac atebodd 37% “Ansicr”.




**Ffigur 9. Atebion i Gwestiwn 15**

Rhanedig oedd yr atebion ar gyfer Cwestiwn 15, heb unrhyw ateb mwyafrifol. Roedd mwyafrif yr atebion gan weithgynhyrchwyr cynnyrch a dylunwyr deunydd pacio yn cefnogi dull samplu a modelu, ond nid oedd y mwyafrif o atebion gan ailbroseswyr/allforwyr a llywodraeth leol yn cefnogi hynny. Roedd mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach yn ansicr, ac roedd atebion gan gwmnïau rheoli gwastraff, manwerthwyr ac atebwyr ‘eraill’ yn fwy cymysg.


Rhoddodd 104 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Ymhlith yr atebwyr oedd yn cefnogi dull samplu a modelu, dywedodd lleiafrif mawr y byddai hyn yn arwain at adrodd data mwy cywir ar faint o ddeunydd DRS sy'n weddill mewn casgliadau ymyl y ffordd. Dywedodd rhai y gallai hyn gael ei gefnogi gan system ddigidol ar gyfer gwahaniaethu rhwng deunyddiau pacio dan rwymedigaeth DRS ac EPR. Atebodd rhai mai ateb dros dro

yn unig ddylai hwn fod am ychydig flynyddoedd ar ôl gweithredu'r DRS, ac y dylid canolbwyntio ar gynyddu cyfraddau casglu DRS.

Mynegodd lleiafrif mawr o atebwyr, nad oeddent yn cytuno â dull samplu a modelu, bryderon y byddai'n anghywir, yn weinyddol gymhleth ac yn gostus. Y rhesymau a roddwyd am hyn oedd ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng rhai deunyddiau pacio EPR a DRS, er enghraifft lle mae alwminiwm yn cael ei gywasgu'n fyrnau cyn ei ailbrosesu, a'r posibilrwydd o dwyll a cham-drin data samplu. Mynegodd atebwyr a atebodd 'Ansicr' i'r cwestiwn hwn bryderon tebyg ynghylch cywirdeb, cymhlethdod a baich cost y dull hwn.

**C16. Ydych chi'n credu y bydd ailbroseswyr ac allforwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng deunydd pacio DRS ac EPR wrth roi tystiolaeth?**

Rhoddodd cyfanswm o 121 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 16. Atebodd 11% "Ydw", atebodd 60% "Nac ydw" ac atebodd 29% "Ansicr".




**Ffigur 10. Atebion i Gwestiwn 16**

Atebodd **mwyafrif** yr atebwyr na fyddai ailbroseswyr ac allforwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng deunyddiau pacio DRS ac EPR. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif o'r rhan fwyaf o'r mathau o atebwyr, er bod mwyafrif yr atebion gan ymgyngoriaethau yn dweud y byddai ailbroseswyr ac allforwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng deunydd pacio EPR a DRS. Roedd mwyafrif yr atebwyr o lywodraeth leol a gweithgynhyrchwyr cynnyrch yn ansicr.

Rhoddodd 99 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Dywedodd lleiafrif mawr o'r rhai oedd yn meddwl y gallai ailbroseswyr ac allforwyr wahaniaethu rhwng deunyddiau pacio DRS ac EPR y byddai hyn yn bosibl gyda system ddigidol yn ei lle, neu y gallai ailbroseswyr wahaniaethu rhwng y gwahanol ddeunyddiau neu'r mathau o bolymerau a ddefnyddid ar gyfer defnyddiau DRS ac EPR. Dywedodd rhai y gellid gwahanu'r deunyddiau hyn ymlaen llaw cyn prosesu, er enghraifft, trwy ganiatáu i Gyfleusterau


Adennill Deunyddiau (MRFs) hawlio'r blaendaliadau oedd heb eu hawlio ar ddeunyddiau DRS.

Ymhlith yr atebwyr a atebodd na fyddai'n bosibl gwahaniaethu rhwng deunyddiau DRS ac EPR, tynnodd lleiafrif mawr sylw at yr anawsterau wrth wahanu deunyddiau sydd wedi cael eu cywasgu (fel dur ac alwminiwm) neu eu torri (fel gwydr) cyn eu hailbrosesu. Dywedodd lleiafrif mawr o'r atebwyr hyn hefyd y byddai'r broses hon yn gostus, a dywedodd rhai y byddai'n dibynnu ar dechnoleg nad yw ar gael yn gyffredin eto.

## Cwestiynau 17 a 18: Y dull gorau o ymdrin â deunydd pacio DRS sy'n aros yn y casgliadau ymyl y ffordd

### C17. Pa un o'r dewisiadau uchod sydd orau gennych?

Rhoddodd cyfanswm o 102 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 17. Atebodd 20% "Opsiwn 1", atebodd 71% "Opsiwn 2" ac atebodd 10% "Opsiwn 3".




**Ffigur 11. Atebion i Gwestiwn 17**

Mynegodd **mwyafrif** yr atebwyr eu bod o blaid Opsiwn 2 (gwneud cynhyrchwyr DRS yn gyfrifol am wastraff deunydd pacio sydd o fewn cwmpas y DRS, ond nad yw'n cael ei gasglu gan y DMOs). Roedd hyn yn cynnwys y mwyafrif o'r rhan fwyaf o fathau o atebwyr, er bod atebion gan unigolion yn fwy cymysg.

O'r atebwyr a oedd o blaid Opsiwn 1 (atal PRN/PERN rhag cael eu cyhoeddi ar ddeunydd DRS a gasglwyd gyda deunyddiau EPR), dywedodd lleiafrif mawr mai dyma'r dull tecaf gan ei fod yn atal cynhyrchwyr rhag cael eu rhwymo o dan y cynlluniau EPR a DRS. Dywedodd rhai o'r atebwyr hyn nad oeddent yn hoffi'r un o'r opsiynau, ond mai Opsiwn 1 oedd y lleiaf annymunol.

Awgrymodd lleiafrif mawr o'r atebwyr a oedd o blaid Opsiwn 2 mai dyma'r dull tecaf a'i fod yn dilyn egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', gan mai cynhyrchwyr DRS fyddai'n gyfrifol am y deunydd pacio y byddent yn ei roi ar y farchnad. Dywedodd lleiafrif mawr hefyd mai'r opsiwn hwn fyddai'r un lleiaf cymhleth i'w weinyddu a'i fonitro. Awgrymodd rhai y dylai fod yn ofynnol i'r DMOs brynu PRN/PERN ar gyfer deunydd DRS nad ydynt yn ei gasglu, y gellid ei ariannu drwy flaendaliadau na chawsant eu hawlio.

O'r atebwyr a oedd o blaid Opsiwn 3 (cynyddu rhwymedigaethau ailgylchu cynhyrchwyr EPR i gynnwys deunydd pacio DRS nas cesglir drwy'r llwybrau DRS), dywedodd mwyafrif mai dyma fyddai'r lleiaf cymhleth i'w weithredu a'i weinyddu. Dywedodd lleiafrif mawr fod ganddynt bryderon ynghylch yr holl opsiynau yn yr ymgynghoriad ond mai'r opsiwn hwn oedd yr opsiwn oedd orau ganddynt.

**C18. Ydych chi'n credu y bydd unrhyw broblemau yn y broses ymarferol o weithredu: Opsiwn 1, Opsiwn 2 neu Opsiwn 3?**

Atebodd 90 o bobl y cwestiwn hwn. Ar gyfer Opsiwn 1, rhai o'r materion penodol a amlinellwyd oedd ei fod yn anodd, yn gostus neu'n amhosibl gwahaniaethu rhwng deunydd pacio dan rwymedigaeth DRS ac EPR mewn casgliadau ymyl y ffordd, y byddai'n seiliedig ar ddata gwael neu anghywir, neu ei fod yn rhy gymhleth neu'n anymarferol yn gyffredinol.

Ar gyfer Opsiwn 2, tynnodd atebwyr sylw at y mater y gallai arwain at gynhyrchwyr DRS yn 'talu ddwywaith' neu'n cael eu rhwymo o dan gynllun DRS ac EPR, a gwnaethant sylwadau ar ddiffyg eglurder cyffredinol ynghylch sut y byddai'r systemau DRS yn gweithredu. Dywedodd lleiafrif mawr o'r atebwyr, a ddywedodd y byddai problemau ymarferol o ran gweithredu Opsiwn 2, mai hwn oedd y lleiaf cymhleth neu'r dewis oedd orau ganddynt o blith y tri opsiwn a gyflwynwyd.

Y sylwadau ar y materion penodol ar gyfer Opsiwn 3 oedd ei fod yn annheg ac nad yw'n dilyn egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'.

### Ateb y Llywodraeth

Bydd cynhyrchwyr yn parhau i fod dan ddyletswydd i gwrdd â'u rhwymedigaethau ailgylchu drwy gael PRN, nes bydd system DRS yn weithredol (ac y bydd deunydd yn cael ei eithrio) yn y wlad berthnasol.

Unwaith y bydd system DRS ar waith yn yr Alban (o fis Awst 2023), bydd gan becynnu o fewn cwmpas rwymedigaethau o dan DRS i gasglu'r pecynnu hwn, neu drefnu i weinyddwr cynllun ei gasglu, i'w ailgylchu. O ystyried hyn, ni fydd y rhwymedigaethau ailgylchu o dan y system cyfrifoldeb cynhyrchydd pecynnu sy'n cael ei roi ar gynwysyddion diodydd ar hyn o bryd o fewn cwmpas DRS yr Alban bellach yn berthnasol ac o ganlyniad ni fydd yn rhaid i'r deunydd hwn gael PRNs bellach fel tystiolaeth o'i ailgylchu. Gan y disgwylir mai cyfran fechan iawn o'r holl ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad fydd y deunydd pacio nad yw'n

cael ei gasglu gan y system DRS, mae modelu'n awgrymu mai effaith fechan iawn a gâi hyn ar y farchnad PRN/PERN (amcangyfrifir gorgyflenwad o ≤1% o PRN/ PERN ar gyfer yr holl ddeunyddiau o fewn cwmpas y DRS).

Ni fyddwn yn symud ymlaen ag unrhyw un o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer rheoli deunyddiau pacio DRS sy'n parhau mewn casgliadau ymyl y ffordd ar ôl i system DRS ddod yn weithredol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Credwn fod angen datblygu'r cynigion hyn ymhellach ac ymgysylltu â'r sector. Byddwn yn adolygu yn nes ymlaen a chyn i'r Cynllun ddod yn weithredol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Byddai canlyniad yr adolygiad hwn yn cael ei gytuno ac yn berthnasol i bob un o'r pedair gwlad.


Yn y cyfamser, ni fydd yn rhaid i gynhyrchwyr deunyddiau sydd o fewn cwmpas DRS dalu costau awdurdodau lleol am reoli'r gwaith o gasglu a didoli'r deunydd hwn sy'n parhau mewn casgliadau ymyl y ffordd neu sy'n cael ei waredu mewn biniau stryd cyn i system DRS ddod yn weithredol. Bydd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gyflwyno Cynllun Dychwelyd Blaendal yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael ei gyhoeddi maes o law a bydd yn cynnwys rhagor o fanylion am y dull o ymdrin â deunydd DRS sy'n aros mewn casgliadau ymyl y ffordd unwaith y bydd system DRS yn weithredol.

## Prawf 'Cymhwysedd Gweithredwr' ar gyfer cynlluniau cydymffurfio, ailbroseswyr ac allforwyr (Cwestiynau 19 i 20)

### Cwestiwn 19: Prawf 'Cymhwysedd Gweithredwr' ar gyfer cynlluniau cydymffurfio

**C19. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwr ar gyfer cynlluniau cydymffurfio?**

Rhoddodd cyfanswm o 125 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 19. Atebodd 93% "Cytuno", atebodd 11% "Anghytuno" ac atebodd 6% "Dim yn cytuno nac yn anghytuno".




**Ffigur 15. Atebion i Gwestiwn 19**

Roedd y **rhan fwyaf** o'r atebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwr ar gyfer cynlluniau cydymffurfio. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif helaeth o'r holl fathau o atebwyr.


Rhoddodd 101 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Dywedodd mwyafrif yr atebwyr, oedd yn cytuno â chyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwr ar gyfer cynlluniau cydymffurfio, y byddai hyn yn gwella perfformiad cyffredinol cynlluniau cydymffurfio. Dywedodd lleiafrif mawr y byddai'r prawf hwn yn arwain at well cydymffurfiaeth a gorfodi ac yn lleihau twyll, a dywedodd rhai y byddai hyn yn gwella hyder y cyhoedd yn y system. Atebodd rhai yr hoffent gael mwy o fanylion am sut y byddai'r prawf cymhwysedd yn gweithredu.

Dywedodd mwyafrif yr atebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, a lleiafrif mawr o'r rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, nad oedd y prawf hwn yn angenrheidiol neu y byddai cynigion eraill mewn gwell sefyllfa i ddatrys problemau gyda chynlluniau cydymffurfio.

## Cwestiwn 20: Prawf 'Cymhwysedd Gweithredwr' ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr

**C20. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwr ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr achrededig?**

Rhoddodd cyfanswm o 122 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 20. Atebodd 93% "Cytuno", atebodd 4% "Anghytuno" ac atebodd 3% "Dim yn cytuno nac yn anghytuno".




**Ffigur 16. Atebion i Gwestiwn 20**

Roedd y **rhan fwyaf** o’r atebwyr yn cytuno â’r cynnig i gyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwr ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr achrededig. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif llethol o’r holl fathau o atebwyr.

Rhoddodd 97 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Dywedodd mwyafrif yr atebwyr, oedd yn cytuno â chyflwyno prawf cymhwysedd ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr, y byddai hyn yn gwella cydymffurfiaeth a gorfodi ac yn lleihau'r risgiau o dwyll. Dywedodd lleiafrif mawr yr hoffent gael mwy o fanylion ynghylch y ffordd y byddai'r prawf yn gweithredu. Atebodd rhai y byddai hyn yn gwella perfformiad ailbroseswyr ac allforwyr ac yn gwella hyder y cyhoedd.

Dywedodd lleiafrif mawr o’r atebwyr oedd yn anghytuno (a’r rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno) â’r cynnig hwn y gallai wella cydymffurfiaeth a gorfodi, ond y gallai fod yn gostus ac y byddai dulliau eraill yn well ar gyfer gwella cymhwysedd ailbroseswyr a/neu allforwyr.

### Ateb y Llywodraeth


Yn seiliedig ar yr atebion i’r ymgynghoriad ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, gan gynnwys atebion i’r ymgynghoriad blaenorol ar gyflwyno EPR, ein bwriad yw symud ymlaen â’r cynigion i gyflwyno asesiad cymhwysedd gweithredwr ar gyfer cynlluniau cydymffurfio ac ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr achrededig hefyd. Cyflwynir y rhain fel rhan o’n Rheoliadau deunydd pacio EPR ehangach.

## Ffi Gydymffurfio (Cwestiynau 21 i 22)

### Cwestiynau 21 a 22: Cyflwyno ffi gydymffurfio

**C21. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno ffi gydymffurfio ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt yn cael digon o PRN/PERN i gyflawni eu rhwymedigaethau?**

Rhoddodd cyfanswm o 124 o'r atebwyr ateb i Gwestiwn 21. Atebodd 58% “Cytuno”, atebodd 24% “Anghytuno” ac atebodd 18% “Dim yn cytuno nac yn anghytuno”.




**Ffigur 17. Atebion i Gwestiwn 21**


Roedd **mwyafrif** yr atebwyr yn cytuno â chyflwyno ffi gydymffurfio ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt yn caffael digon o PRN/PERN i gwrdd â'u rhwymedigaethau. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebwyr o sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, gweithgynhyrchwyr cynnyrch, dylunwyr deunydd pacio a manwerthwyr. Nid oedd mwyafrif yr atebwyr o lywodraeth leol yn cytuno nac yn anghytuno, tra roedd yr atebion gan ailbroseswyr/allforwyr, cwmnïau rheoli gwastraff ac atebwyr ‘eraill' yn fwy cymysg.

Rhoddodd 111 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Rhoddodd atebwyr, oedd yn cytuno â ffi gydymffurfio, amrywiaeth o resymau dros gefnogi'r cynnig hwn, a'r mwyaf cyffredin oedd y byddai'n lliniaru yn erbyn methiant y farchnad a phrinder PRN/PERN, yn atal codiadau pris gormodol, ac yn sicrhau bod gan bob cynhyrchydd fodd o hyd i gydymffurfio pe bai prinder tystiolaeth. Dywedodd lleiafrif mawr o atebwyr mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai'r ffi gydymffurfio hon fod ar gael fel dewis, a bod angen gosod y ffi ar gyfradd ddigon uchel i sicrhau nad yw'n rhatach na chost cydymffurfio. Awgrymodd rhai y dylid buddsoddi'r arian o'r ffi gydymffurfio hon i wella seilwaith ailgylchu yn y DU.

Dywedodd y mwyafrif o'r atebwyr, oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, y gallai cynhyrchwyr ei weld fel ‘ffordd hawdd allan' o gydymffurfio â'u rhwymedigaethau ailgylchu, fyddai'n rhoi mantais annheg iddynt ac yn arwain at gyfraddau ailgylchu is. Dywedodd lleiafrif mawr o atebwyr oedd yn anghytuno hefyd y byddai hyn yn ymyrryd â gweithrediad y farchnad PRN/PERN neu nad oedd yn angenrheidiol ochr yn ochr â'r diwygiadau eraill a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad.

**C22. Ydych chi'n credu y byddai cyflwyno ffi gydymffurfio yn dal i fod yn angenrheidiol ar ben y cynigion i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag anwadalwch prisiau?**

Rhoddodd cyfanswm o 121 o’r atebwyr ateb i Gwestiwn 22. Atebodd 46% “Ydw”, atebodd 25% “Nac ydw” ac atebodd 29% “Ansicr”.




**Ffigur 18. Atebion i Gwestiwn 22**

Ni chafwyd ymateb mwyafrifol i’r cwestiwn hwn, ond dywedodd **lleiafrif mawr** o’r atebwyr y byddai angen ffi gydymffurfio o hyd, yn ogystal â’r cynigion eraill yn yr ymgynghoriad, i fynd i’r afael â’r materion yn ymwneud ag anwadalwch prisiau yn y farchnad PRN/PERN. Roedd hyn yn cynnwys mwyafrif yr atebion gan sefydliadau oedd yn cynrychioli busnes/cyrff masnach, manwerthwyr a dylunwyr deunydd pacio. Roedd mwyafrif yr atebwyr o lywodraeth leol yn ansicr, tra roedd yr atebion gan y mathau eraill o atebwyr yn fwy cymysg.

Rhoddodd 76 o atebwyr sylwadau pellach ar eu hateb. Dywedodd lleiafrif mawr o’r atebwyr a atebodd ‘Ydw’ y byddai angen ffi gydymffurfio o hyd i leihau anwadalwch prisiau a chapio prisiau PRN/PERN pe bai prinder tystiolaeth. Rhesymau eraill a roddwyd oedd y dylai fod gan y Llywodraeth nifer o offerynnau polisi ar gael iddi i leihau anwadalwch prisiau, ei bod yn sicrhau bod gan gynhyrchwyr fodd i gydymffurfio, y dylai fod ar gael fel y dewis olaf, a bod effeithiau'r cynigion eraill yn aneglur.

Dywedodd lleiafrif mawr o’r atebwyr a atebodd ‘Nac ydw’ y byddai cyflwyno cynigion eraill a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad yn lleihau’r angen i gyflwyno ffi gydymffurfio, ac y dylid asesu effaith y rhain cyn ystyried ffi gydymffurfio.

### Ateb y Llywodraeth

Rydym wedi penderfynu peidio â symud ymlaen i gyflwyno ffi gydymffurfio ar hyn o bryd, gan ein bod yn credu bod angen datblygu'r cynigion hyn ac ymgysylltu ymhellach â'r sector. Ein bwriad yw mesur effeithiau'r diwygiadau eraill a gaiff eu datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ac yna byddwn yn ailystyried cyflwyno ffi gydymffurfio.

## Awgrymiadau Eraill

Yn ychwanegol at y cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i atebwyr roi manylion awgrymiadau eraill ar gyfer gwella gweithrediad y farchnad PRN/PERN. Cafwyd awgrymiadau gan 79 o atebwyr, oedd yn cynnwys:

- Roedd lleiafrif mawr o awgrymiadau'n canolbwyntio ar gynyddu lefelau ailbrosesu domestig a chyfyngu ar faint o wastraff deunydd pacio sy'n cael ei allforio. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy gyflwyno targed ailgylchu ychwanegol y DU ar gyfer rhai deunyddiau, fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cyflawni cyfran fechan o rwymedigaeth ailgylchu cynhyrchwyr drwy brynu PRN (yn hytrach na PERN). Roedd awgrymiadau eraill yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o graffu ar allforion er mwyn sicrhau bod gwastraff deunydd pacio oedd yn cael ei allforio yn cael ei ailgylchu i'r un safon â deunydd pacio sy'n cael ei ailgylchu yn y DU, ac am fwy o fuddsoddiad yn seilwaith ailgylchu'r DU.
- Awgrymodd nifer o atebwyr fod angen gwell gorfodaeth ac archwilio gan y rheoleiddwyr, ac y dylid rhoi mwy o bwerau i'r rheoleiddwyr i ymchwilio a rhoi cosbau am ddiffyg cydymffurfio neu gamddefnyddio'r system.
- Awgrymodd amryw fod angen gwella tryloywder ymhellach ar draws y gadwyn gyflenwi, nid yn unig ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr.
- Gofynnodd rhai atebwyr am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai EPR yn rhyngweithio â'r system PRN/PERN, a sut y byddai hyn yn gwella cyfraddau ailgylchu.

### Ateb y Llywodraeth

Rydym wedi ystyried cyflwyno targedau o'r blaen sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfran benodol o ddeunydd pacio gael ei ailgylchu yn y DU ond nid ydym wedi symud ymlaen gyda'r syniad gan fod angen rhagor o waith i ddeall ei oblygiadau masnachol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyn. Bydd gofynion ychwanegol yn cael eu gosod ar allforwyr gwastraff deunydd pacio i gynyddu'r craffu ar ddeunyddiau sy'n cael eu hallforio, fel yr amlinellwyd yn Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad EPR 2021. Er enghraifft:

- Bydd yn ofynnol i bob allforiwr gofrestru gyda rheoleiddiwr ac adrodd ar y tunelli o wastraff deunydd pacio sy'n cael ei dderbyn a'i allforio i'w ailgylchu mewn safleoedd tramor.

- Bydd yn ofynnol i allforwyr gael tystiolaeth bod llwythi wedi cael eu derbyn mewn safleoedd cyrchfan terfynol a chael tystiolaeth o ailgylchu gan yr ailbroseswyr tramor.
- Dim ond ar ôl cael cadarnhad o dderbyn y deunydd o safleoedd cyrchfan terfynol y bydd allforwyr yn gallu cadarnhau cyhoeddi PERN.
- Bydd yn ofynnol i allforwyr gyflwyno ffurflenni Atodiad VII a/neu ddogfennau ategol perthnasol eraill i'r rheoleiddiwr cyn i'r gwastraff gael ei gludo i'w ailgylchu.

Roedd Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad EPR 2021 hefyd yn egluro ein cynlluniau i wella cydymffurfiaeth a gorfodi. Bydd y Llywodraeth yn defnyddio pwerau a ddarperir yn Neddf yr Amgylchedd 2021 i sicrhau bod y rheoleiddwyr ym mhob un o’r pedair gwlad (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA)) yn cael ystod o sancsiynau i'w galluogi i gymryd camau priodol yn erbyn diffyg cydymffurfio.

Bydd tryloywder yn cael ei wella ar draws y gadwyn gyflenwi drwy ein diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Cyfleusterau Materol (MF), fydd yn cynyddu amlder samplu gwastraff deunydd pacio mewn cyfleusterau materol ac yn gwella cywirdeb data gwastraff cyfansoddol.[2] Bydd cyflwyno system Ddigidol o Olrhain Gwastraff, y disgwylir iddi fod yn gwbl weithredol yn 2024, hefyd yn darparu data ychwanegol ar wastraff wrth iddo symud drwy'r system. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr gyflwyno data manwl ddwywaith y flwyddyn ar y swm a'r math(au) o ddeunydd pacio y maent wedi'i roi ar y farchnad. Bydd amlder cynyddol a manylder yr adroddiadau hyn hefyd yn helpu i wella tryloywder ynghylch y deunydd pacio a roddir ar y farchnad.

[2] Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau 45-47 o Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad 2021 ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio.